


Chwarae dros Gymru

Newyddion chwarae a gwybodaeth gan yr elusen genedlaethol dros chwarae **Haf 2010**



Chwarae – gwella cyfleoedd

www.chwaraecymru.org.uk


Cynnwys

tudalen

Golygyddol	2-3
Newyddion	3-5
Antur Chwarae MAWR	6-8
Chwarae a Chymdeithasu	9-10
Digwyddiadau ac Adolygiad Llyfr	11
Datblygu'r Gweithlu	12-13
IPA 2011	14

Cyhoeddir *Chwarae dros Gymru* gan
Chwarae Cymru dair gwaith y flwyddyn.

Cysylltwch â'r Golygydd yn:
Chwarae Cymru, Tŷ Baitig,
Sgwâr Mount Stuart,
Caerdydd CF10 5FH

Rhif ffôn: 029 2048 6050
E-bost: gwybodaeth@chwaraecymru.org.uk
Elusen Gofrestredig Rhif. 1068926

ISSN: 1755 9243

Nid barn Chwarae Cymru o reidwydd yw'r
farn a fynegir yn y cylchlythyr hwn.
Rydym yn cadw'r hawl i olygu cyn cyhoeddi.
Nid ydym yn ardystio unrhyw rai o'r cynnyrch
na'r digwyddiadau a hysbysebwr yn neu gyda'r
cyhoeddiad hwn.

Argraffwyd y cyhoeddiad hwn ar bapur a
gynhyrchwyd o goedwigoedd cynaliadwy.

Dyluniwyd ac argraffwyd gan
Carrick
Ffôn: 01443 843 520
E-bost: sales@carrickdp.co.uk

Golygyddol

Chwarae: y bwlch rhwng y cenedlaethau



Gan Keith Towler, Comisiynydd Plant Cymru.

Chwerthin. Gwichial. Sgrechian.
Llafarganu. Bloeddio. Ydych chi,
fel fi, wrth eich bodd yn clywed
plant yn cael hwy! Os oes sŵn
gwell i'w glywed, dydw i heb
ddod ar ei draws eto.

Pan fydda i'n ymweld ag ysgolion fe
fydda' i'n ei glywed ar fuarth yr ysgol,
fe fyddaf yn ei glywed mewn meysydd
chwarae ac mewn meithrinfeydd. Ond
mae wedi dod yn amlwg imi dros y
blynyddoedd diwethaf ein bod yn clywed
y synau hyn mewn llai a llai o lefydd.
I ddweud y gwir, allwch chi feddwl am
unrhyw le ar wahân i'r traeth, neu pan
fo eira ar lawr, pan y gallech ddigswyl
clywed a gweld plant yn cael hwy!
Rydym fel cymdeithas fel pe baem wedi
cwtogi'r cyfleoedd i blant chwarae, mae
fel pe baem wedi gosod ein bryd ar 'dwt-
twtio' os y byddwn yn clywed plant yn cael
hwy! ac mae'n ymddangos fel pe baem
wedi cyrraedd pwynt ble y byddem yn
gwastgu'r botwm 'mud', pe bai modd inni.

Rwy'n amau bod nifer o resymau am
hyn. Diffyg goddefgarwch o'r sŵn gairff
ei wneud wrth i blant chwarae; ofn i blant
gwympto a chael anaf, neu'n waeth fyth,
pryder ynghylch y difrod y gallai plant ei
achosi i'r gymuned leol. Ond pryd wnaeth
cymdeithas droi mor gul ei meddwl
ynghylch chwarae? A pham fod llawer
o oedolion heddiw, wnaeth chwarae
mewn caeau a choedwigoedd lleol ac
ar y strydoedd, yn atal ein plant rhag gael
proffir un cyfleoedd?

Mae fy atgofion i o fy mhientyndod yn
cynnwys chwarae pêl-droed ar y stryd,
dringo coed, adeiladu cuddfannau yn y
coed, creu argae yn yr afon a chrafu fy
mhengliniau wrth imi fynd ar fy mhen i lawr
y llithren. A wyddoch chi beth? Fyddwn
i ddim yn newid eiliad ohono. Oedd,
roedd yn cynnwys cael fy anafu ac oedd,
efallai bod yr hyn yr oeddwn yn rhan
ohono'n cael ei ystyried yn niwsans gan

rai oedolion. Rwy'n cofio cael cerydd,
rwy'n cofio nad oedd pwrpas chwarae
pêl-droed wrth dŷ Mr Brown, oni bai wrth
gwrs ein bod awydd cael ein cwrsio i lawr
y stryd! Ond y peth pwysicaf yw, dydw i
ddim yn cofio erioed i oedolyn herio ein
hawl i fod yno nac i'r heddlu gael eu galw
am ein bod yn bod yn 'wrth-gymdeithasol'.

Gellir crynhoi fy mhientyndod, fel llawer
person arall, gyda straeon ynghylch sut y
byddwn yn dweud 'Hwy!' wrth mam yn y
bore a dod adre gyda'r nos pan oeddwn
eisiau bwyd. Byddai'r diwrnod yn llawn
dop o chwarae a chymdeithasu gyda
chffeillion. Fe ddysgais sut i ymdopi â
difflastod, sut i gael hwy!, sut i drafod, sut
i asesu risg a sut i gymdeithasu; mae'r
elfennau hyn i gyd wedi helpu i ffurfio'r
person yr ydw i heddiw. Fy mhryder yn
awr yw na chaiff y genhedlaeth bresennol
o blant a phobl ifanc yr un cyfleoedd i
ddysgu trwy chwarae, fel y cefais i.

Cawsom gyfarfod diddorol tua blwyddyn
yn ôl yn ein swyddfa gyda Mike
Greenaway o Chwarae Cymru. Yn ystod
y cyfarfod fe gyflwynodd Mike luniau
i'r staff o fannau ble y gallent fod wedi
chwarae'n ystod eu plentyndod. Roedd
yno luniau o gaeau a pharciau gyda
siglenni a llithrenau. Gofynnodd Mike i'r
staff ble yr oeddwn nhw'n cofio chwarae
– cefais fy synnu, hyd yn oed yn yr ystafell
honno o tua 20 o bobl broffesiynol,
pobl y byddaf yn gweithio â nhw bob
dydd, bod gwahaniaeth amlwg. Roedd
aelodau iau o'r staff yn cofio chwarae
mewn ardaloedd chwarae 'wedi eu trefnu'
megis parciau. Tra bo'r staff hyn gydag
atgofion plentyndod tebyg i fy rhai i. Beth
ddigwyddodd i'r rhyddid gefais i pan
oeddwn i'n ifanc?

Pan fyddaf i'n gofyn i blant os fyddai'n
well ganddynt chwarae dan do neu'r tu
allan, bydd y rhan fwyaf wastad yn dweud
y byddai'n well ganddynt chwarae'r tu
allan. Rwy'n credu bod hyn yn ymwneud
yn bennaf â rhyddid i chwarae. Mae
nhw am ddewis sut a ble a phryd. Wrth
gwrs, ceir rhai dewisiadau dan do – ystod

Diolch o galon i bawb a gyfranodd at y cylchgrawn hwn – allen ni ddim ei wneud
heboch chi. Mae'r rhifyn hwn o *Chwarae dros Gymru*, yn ogystal â rhifynnau blaenorol
ar gael i'w lawrlwytho o adran newyddion ein gwefan ar www.chwaraecymru.org.uk



eang iawn o sianelau teledu i ddewis rhyngddynt, ystafelloedd sgwrsio ar-lein, brys-negeseuon a gemau fideo. Mae'r rhain o natur mwy eisteddog a, thra bod oedolion yn achwyn bod plant yn rhythu ar sgriniau bob dydd, byddant yn cysoni'r diffyg gweithgarwch corfforol yma gyda brawddeg fel: 'Ond o leiaf rwy'n gwybod ble mae'n nhw a beth mae'n nhw'n ei wneud'. Ydych chi wir?

Mae chwarae'n hawl sylfaenol yn ôl Erthygl 31 o Gytundeb y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Fel oedolion, mae dyletswydd arnom i sicrhau bod chwarae'n bosibl. Ond sut awn ni o gylch sicrhau ei fod yn digwydd? Rwy'n credu'n gryf mai'r cam cyntaf sydd angen inni ei gymryd i wneud i chwarae ddigwydd i blant a phobl ifainc Cymru (ac mae hyn yn wir am unrhyw wasanaeth neu gyfle yr ydym am ei ddarparu ar eu cyfer) yw i siarad â nhw, a'r ail gam cwbl allweddol yw i wrando ar yr hyn sydd ganddynt i'w ddweud. Yna, bydd angen inni ddarparu'r cyfleoedd y maent eu hangen. Ddylai hynny ddim bod yn ormod o waith mewn sefyllfaoedd strwythuredig neu rannol-strwythuredig ar gyfer chwarae plant. Y broblem anodaf i'w datrys yw sut y gallwn ni fel cymdeithas ymateb i hawl plant i chwarae.

'Does bosib' mai fi yw'r unig un sy'n credu y dylai hawl plant i gwydro gael ei adfer i'r un safon â'r hyn gefais i yn y 1960au a dechrau'r 70au. Yr hawl i chwarae yn eich stryd eich hun yn rhydd o ormes cerbydau modur, rhyddid i chwarae yn y coed, i gicio pêl yn erbyn wal ac i adeiladu cuddfan heb gael fy ngwatwar gan oedolion gwyliadwrus. 'Does bosib ei fod yn ormod i ofyn.

Fe fyddwn i'n dadlau bod chwarae plant cyn bwysiced i'w datblygiad corfforol ac emosïynol fel y byddwn yn gwneud niwed iddynt os y byddwn yn eu hatal rhag mwynhau eu hawl i chwarae. Gofynnwch i ddeg o blant pa mor bwysig yw chwarae iddyn nhw ac fe gewch ymateb cadarnhaol cryf iawn. Gofynnwch i'r un deg plentyn beth fyddan nhw'n hoffi ei wneud pan fyddan nhw allan yn chwarae ac fe gewch chi ddeg ateb gwahanol. Mae hynny'n iawn, achos mai dyna'n union beth yw chwarae. Mynegiant a dysg unigryw – mae'n rhan annatod o bob un ohonom. Fe fyddai'n beth da inni gydnabod hynny.

Efallai mai un gwir arwydd o gymdeithas iach yw faint o blant y byddwch yn eu gweld ac yn eu clywed yn chwarae'r tu allan. Mae gennym gryn ffordd i'w deithio yma yng Nghymru, ond rwy'n gobeithio nad yw popeth ar ben eto.

BRYS – lleisiwch eich barn! Strategaeth Tlodi Plant a Chynllun Cyflawni Newydd ar gyfer Cymru

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cynnal ymgynghoriad cyhoeddus tri mis o hyd ar *Strategaeth Tlodi Plant a Chynllun Cyflawni* newydd ar gyfer Cymru, ddaw i ben ar 12 Awst 2010. Mae gan y strategaeth y potensial i newid yr amgylchedd polisi ac ariannu ar gyfer gwasanaethau plant. Un elfen bwysig iawn sy'n amlwg wedi cael ei esgeuluso yw cyfraniad cadarnhaol pwysig chwarae a darpariaeth chwarae i'r agenda hon.

Mae Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru), ddaeth yn gyfraith ym mis Chwefror 2010, yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi strategaeth sy'n amlinellu gweledigaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer mynd i'r afael â thlodi ymysg plant yng Nghymru a gwella canlyniadau ar gyfer plant a rhieni sy'n byw mewn teuluoedd incwm-isel. Mae'r cynllun cyflawni'n amlinellu'r camau polisi y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn eu trosglwyddo er mwyn cyflawni'r weledigaeth hon. Mae chwarae a darpariaeth chwarae wedi eu hepgor o'r Strategaeth arfaethedig, er eu bod wedi eu cynnwys yn y Mesur. Mae gennym dystiolaeth cynyddol gref sy'n dangos y gall darpariaeth chwarae o safon leddfu agweddau o dlodi plant a chefnogi plant i ffynnu a chynyddu eu gwytnwch – yn ogystal â meithrin cydlynid cymunedol.

Fe wahoddir aelodau Chwarae Cymru i gyflwyno sylwadau ar ein ymateb drafft i'r ymgynghoriad er mwyn hysbysu ein cyflwyniad terfynol – a byddwn yn gosod ein ymateb terfynol ar ein gwefan fel y gall pobl eraill ei ddefnyddio i hysbysu eu hymateb hwythau. Byddem yn annog pawb yng Nghymru sydd â diddordeb mewn chwarae plant a darpariaeth chwarae i ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

Yn dilyn y cyfnod ymgynghorol, rhagwelir y cyhoeddir Strategaeth Tlodi Plant diwygiedig a Chynllun Cyflawni gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (Hydref 2010).

Dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion i'r ymgynghoriad: 12 Awst 2010

Ymwelwch a: <http://wales.gov.uk/consultations/childrenandyoungpeople/cpstrategy/?skip=1&lang=cy>

Buddiannau iechyd chwarae i blant anabl

Mae KIDS, elusen sy'n gweithio i greu byd cynhwysol ar gyfer plant a phobl ifainc anabl a'u teuluoedd, wedi cyhoeddi taflen briffio newydd – *The health benefits of play and physical activity for disabled children and young people*.

Bwriad y daflen briffio yma yw cynyddu ymwybyddiaeth ynghylch rôl hanfodol chwarae a gweithgarwch corfforol wrth hyrwyddo iechyd a lles plant a phobl ifainc anabl. Mae'n archwilio buddiannau iechyd chwarae, y cyd-destun polisi cenedlaethol yn Lloegr, a'r rhwystrau ychwanegol y bydd plant a phobl ifainc anabl yn eu wynebu wrth gael mynediad i gyfleoedd hamdden, chwaraeon a chwarae. Mae hefyd yn cynnwys astudiaethau achos, argymhellion allweddol ar gyfer llunwyr polisïau a rhestr o adnoddau defnyddiol.

**I lawrlwytho copi o'r daflen briffio, ymwelwch a: www.kids.org.uk/publications
Mae Chwarae Cymru a KIDS yn archwilio ffyrdd i gyhoeddi'r daflen briffio yma i gynnwys y cyd-destun polisi Cymreig.**



Pobl ifanc yn cyflwyno tystiolaeth



Yn gynharach eleni cyflwynodd Jessica Simmons a Victoria Madden, cynrychiolwyr Draig Ffyni (cynulliad plant a phobl ifainc Cymru), dystiolaeth i'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifainc yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru, fel rhan o'r ymchwiliad i mewn i fannau diogel i chwarae a chymdeithasu yng Nghymru.

Ynghyd ag aelodau eraill Draig Ffyni, Anthony Aratoon, Charlie Prowse a Guto Davies, roeddent eisoes wedi cyflwyno tystiolaeth fideo i'r pwyllgor. Yn dilyn hyn, gwahoddwyd Jessica a Victoria i

siarad yn uniongyrchol â'r pwyllgor.

Roedd y cwestiynau a ofynnwyd yn amrywio o ble y byddan nhw'n cymdeithasu a beth y byddan nhw'n ei wneud, i'r hyn y mae'n nhw'n credu sydd angen ei osod yn ei le nesaf. Roedd y pwyllgor yn cynnwys Aelodau Cynulliad o bob plaid dan gadeiryddiaeth Helen Mary Jones. Bu'r merched yn siarad â'r pwyllgor am amser maith, a chymerodd eu tystiolaeth bron i ddwy awr i'w gyflwyno.

Yn ogystal cafodd Jessica a Victoria eu cyfnewid ar gyfer Teledu'r Senedd, sy'n darlledu'n fyw o'r pwyllgorau ac sy'n teledu digwyddiadau yn siambr y cynulliad – www.senedd.tv

Am fwy o wybodaeth ynghylch cynulliad plant a phobl ifainc Cymru, ymwelwch â gwefan Draig Ffyni: www.draigffyni.org

Gweler ein erthygl 'Ymholi ynghylch yr Ymchwiliad' ar dudalen 9/10.

Ymgynghoriad rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd

Mae'r ymgynghoriad hwn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru'n ceisio barn ar ddiwygiadau arfaethedig i'r rheoliadau presennol sy'n rheoli gofal plant i blant dan 8 mlwydd oed.

Cafodd Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) ei gymeradwyo gan y Cyfrin Gyngor ar 10 Chwefror 2010. Mae'n cynnig cyfle i ddefnyddio pwerau a ddatganolwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i ddiweddarau deddfwriaethau gwarchod plant a gofal dydd sy'n bodoli eisoes. Bydd hyn yn golygu bod y gyfraith yn y meysydd pwysig hyn yn fwy hygyrch ac yn rhwyddach i'w deall.

Nid yw'r mesur (Rhan 2: Rheoleiddio Gwarchod Plant a Gofal Dydd) yn newid y trefniadau presennol ar gyfer cofrestru ac arolygu gwasanaethau gofal plant yn aruthrol. Ond, mae'n rhoi cyfle i atgyfnerthu a gwella rheoliadau gofal dydd a gwarchod plant sy'n bodoli eisoes.

Bydd aelodau Chwarae Cymru'n derbyn gwahoddiad i gyflwyno eu sylwadau ar ein hymateb drafft i'r ymgynghoriad, er mwyn hysbysu ein cyflwyniad terfynol – a byddwn yn gosod ein hymateb terfynol ar ein gwefan, fel y gall eraill ei ddefnyddio i hysbysu eu cyflwyniadau hwythau.

Dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion i'r ymgynghoriad: 6 Medi 2010

Am fwy o wybodaeth ac i ymateb i'r ymgynghoriad, ymwelwch â:
<http://wales.gov.uk/consultations/education/childdaycare/?skip=1&lang=cy>



2010 – y diweddaraf

Cynhelir Diwrnod Chwarae eleni **Ar Ddydd Mercher 4 Awst 2010.**
Teitl Cymraeg ymgyrch Diwrnod Chwarae 2010 yw 'Mae'n Le i Ni Hefyd!'

Rydym yn credu y gall, ac y dylai, plant allu chwarae bob dydd bron iawn ym mhobman y maent yn byw ynddo ac yn symud trwyddo ... oherwydd bod chwarae'n bwysig iddyn nhw ac mae'r fan yma'n le iddyn nhw hefyd.

Cofrestrwch eich digwyddiad

Waeth os ydych yn trefnu digwyddiad bychan ar gyfer eich cymdogaeth neu strafagansa mewn dinas i ddatlu Diwrnod Chwarae 2010, cofiwch gofrestru eich digwyddiad ar wefan Diwrnod Chwarae. Anfonir pecyn cofrestru at bob digwyddiad a gofrestrwyd, tra pery'r cyflenwad.

Fforwm

Gall trefnwyr digwyddiadau rannu syniadau a chynghor â threfnwyr eraill trwy'r Fforwm ar-lein ar wefan Diwrnod Chwarae. Mae amrywiol bynciau y gallwch gyfrannu atynt, yn cynnwys 'HELP! Ask fellow organisers for advice' neu gallwch greu pwnc newydd.

Ymgynghoriad Arlunio

Fel rhan o'r ymgyrch eleni fe gynhelir ymgynghoriad arlunio. Er mwyn helpu i greu darlun o chwarae mewn cymunedau ar draws y DU, gofynnir i blant dynnu llun sut beth yw chwarae ble mae'n nhw'n byw. Gellir lawrlwytho templed yr ymgynghoriad oddi ar wefan Diwrnod Chwarae.

Pleidlais Diwrnod Chwarae

Ar hafan gwefan Diwrnod Chwarae ceir hefyd pleidlais gyflym sy'n gofyn 'Pa mor aml fyddwch chi'n gweld plant yn chwarae allan yn eich cymuned?'. I gwmryd rhan yn y pleidlais, ymwelwch â gwefan Diwrnod Chwarae.

www.playday.org.uk



Cynyddu Ymwybyddiaeth ynghylch Cytundeb y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

Mae Erthygl 42 CCUHP yn nodi y dylai'r Llywodraeth sicrhau bod bob rhiant a phlentyn yn ymwybodol o'r Cytundeb – Geraint Hamer (Tîm Polisi a Chyflawni Hawliau, Llywodraeth Cynulliad Cymru) a Trudy Aspinwall (Achub y Plant), sy'n sôn wrthym am gamau i gynyddu ymwybyddiaeth yng Nghymru ...

Pecyn Cymorth

Mae Pecyn Cymorth Cynyddu Ymwybyddiaeth ynghylch CCUHP ar gael, a lansiwyd ym mis Tachwedd 2009, sydd wedi ei anelu at ymarferwyr a phobl broffesiynol.

Mae Achub y Plant (wedi ei ariannu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru) wedi datblygu *Hawliau Plant yng Nghymru* – adnodd ar y we i gynorthwyo pobl broffesiynol i ddatblygu agwedd hawliau plentyn i gynllunio, trosglwyddo a gwerthuso gwasanaethau sydd i'w lansio yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym mis Awst. Dysgwch fwy gan Trudy Aspinwall: t.aspinwall@savethechildren.org.uk

Mae **Children's Rights-Spice 'em up!**, a gyhoeddir gan Dynamix, yn becyn cymorth o weithgareddau cyfranogol sy'n archwilio beth yw hawliau, wedi ei anelu at blant, pobl ifainc ac ymarferwyr.

'Turn on the Rights' – o fewn y Llywodraeth

Helpodd pobl ifainc o brosiect 'Turn

on the Rights', Achub y Plant, i hwyluso gweithdai gyda staff o wahanol feysydd polisi i gynyddu ymwybyddiaeth o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r Tîm Polisi a Chyflawni Hawliau a 'Turn on the Rights' yn gweithio ar sioe deithiol ar gyfer swyddfeydd Llywodraeth Cynulliad Cymru ar draws Cymru, ac hefyd yn creu ffilm.

Cyfieithu

Mae erthyglau CCUHP, a'r Sylwadau Terfynol a'r Blaenoriaethau ar gyfer Cymru wedi eu cyhoeddi ar ffurf Braille ac adnoddau clywedol dwyieithog, ac mae'n fwrriad i ehangu hyn i gynnwys iaith Arwyddion Prydain.

Hyrwyddo Delweddau Cadarnhaol

Yn 2010 bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru'n canolbwyntio ar ddelio â chanfyddiadau negyddol – gan weithio gyda chynrychiolwyr yn y cyfryngau i'w perswadio i newid eu harddull ysgrifennu ac i ddefnyddio delweddau, a straeon mwy positif, o blant a phobl ifainc. Gofynnir i blant a phobl ifainc i gyflwyno yr hyn y maent yn credu sy'n straeon neu ddelweddau sy'n cyfleu delweddau positif ohonynt ar gyfer cystadleuaeth, a chynhelir dathliad ym mis Tachwedd fydd yn cynnwys gweithdai gyda newyddiadurwyr a myfyrwyr astudiaethau cyfryngau.

Am fwy o wybodaeth, ewch i:

www.ccuhpwgneudpethauniawn.co.uk/default.aspx

<http://cymru.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/rights/?skip=1&lang=cy>

Lansio Newid am Oes yng Nghymru



Lansiwyd ymgyrch newydd uchelgeisiol, sy'n cynnwys hysbysebion ar y teledu, ar fyrdau mawr mewn trefi, ar drafnidiaeth cyhoeddus ac mewn papurau newydd ym mis Mawrth 2010, fydd yn helpu teuluoedd i fwyta'n dda, i symud mwy ac i fyw yn hirach. Ers hynny, mae 14,000 o deuluoedd wedi ymuno â'r cynllun. Bwriad yr ymgyrch yw sbarduno chwyldro yn ffordd o fyw pob teulu, er mwyn atal y llif cynyddol o ordewdra.

Dywedodd Alun Ffred Jones, y Gweinidog Treftadaeth: 'Gall newidiadau syml i'n ffordd o fyw wella ein iechyd, ein helpu i fyw yn hirach a gosod esiampl dda i'n plant. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn lansio'r ymgyrch hon i gynnig cyngor a chefnogaeth ymarferol i deuluoedd ar draws Cymru ynghylch sut y gallant wneud dewisiadau gaiff effaith positif ar iechyd eu plant.'

Gall rhieni gofrestru a derbyn cynlluniau gweithredu wedi eu teilwra'n arbennig ar gyfer eu plant. **Cysylltwch â chanolfan alwadau Newid Am Oes ar 0800 100 900 neu llanwch holiadur ar-lein ar www.cymru.gov.uk/newidamoes**

Gwobr 2010 'Making Space'

Mae 'Making Space 2010: architecture and design for children and young people' yn wobwr a chynhadledd ryngwladol sy'n hybu dyfeisgarwch, creadigrwydd a chynladwydd mewn dylunio ar gyfer plant a phobl ifainc rhwng 0-18 mlwydd oed.

Gwahoddiir ceisiadau o bob cwr o'r byd ar gyfer yr adeilad neu'r gofod (awyr agored neu dan do) mwyaf llwyddiannus ar gyfer plant a phobl ifainc rhwng 0-18 mlwydd oed (yn gynnwysedig), a gwblhawyd rhwng mis Ionawr 2005 a mis Rhagfyr 2010.

Caiff enillwyr y gwobrau eu cyhoeddi a'u harddangos mewn cynhadledd ryngwladol ar 7-8 Hydref 2010 yng Nghaeredin, gyda digwyddiadau cysylltiedig yn Glasgow a Stirling.

Dyddiad cau: 8 Awst 2010.

www.childrenscotland.org.uk/html/makingspace.htm



Cychwyn ar antur MAWR newydd!



Bydd y buddsoddiad unigol mwyaf erioed mewn darpariaeth chwarae plant yng Nghymru'n sicrhau buddiannau aruthrol i'n plant ac yn creu swyddi newydd i weithwyr yng Nghymru. Mae Chwarae Cymru wedi cefnogi trosglwyddo rhaglen Chwarae Plant (MAWR) Cronfa Loteri FAWR ac yma rydym yn amlinellu'r antur newydd sydd ar y gweill.

Yng Ngwanwyn eleni cyhoeddodd MAWR bod deg prosiect, oedd yn cwmpasu pob rhanbarth o Gymru, i rannu buddsoddiad o £9.5 miliwn mewn darpariaeth chwarae. Bydd y prosiectau i gyd yn cwrdd â blaenoriaethau'r rhaglen trwy greu mentrau a chyfleusterau chwarae newydd mewn cymunedau lleol ar draws Cymru.

Cefndir

Yn ôl ym mis Tachwedd 2006, lansiodd y Gronfa Loteri FAWR raglen Chwarae Plant dwy rownd, gwerth £13 miliwn yng Nghymru, fel rhan o'u Menter Teuluoedd lach i ariannu prosiectau chwarae sy'n anelu i gyflawni un o'r canlyniadau canlynol:

- Mwy o blant â mynediad i gyfleoedd chwarae
- Creu isadeiledd lleol i ddarparu a chynllunio ar gyfer gweithgareddau chwarae plant
- Datblygu cysylltiadau strategol sy'n hyrwyddo agwedd gydlynol tuag at faetheg, gweithgarwch corfforol a chwarae

Ym mis Rhagfyr 2007 cyhoeddodd MAWR ariannu Rownd Un o £2.2 miliwn i greu isadeiledd ar gyfer darparu a chynllunio ar gyfer darpariaeth chwarae plant ar draws holl ranbarthau Cymru – crewyd 10 sefydliad isadeiledd, rhai wedi eu lleoli o fewn cymdeithasau chwarae oedd yn bodoli eisoes. Aeth grwpiau rhanbarthol o randdeiliaid allweddol gyda phob prosiect isadeiledd, gyda chefnogaeth Chwarae Cymru, ati i ddynodi bylchau mewn darpariaeth ar gyfer plant yn chwarae, cytuno ar flaenoriaethau ar gyfer buddsoddiad ar lefel leol ac i gynllunio prosiectau i ateb anghenion trwy Rownd Dau o'r rhaglen.

Cwblhaodd y prosiectau isadeiledd ymarferion archwilio rhanbarthol i fapio darpariaeth chwarae (e.e. manau chwarae lleol, cynlluniau chwarae mynediad agored cynhwysol, safleoedd meysydd chwarae antur a phrosiectau chwarae maes a symudol). Cynorthwyodd yr archwiliadau i ddynodi blaenoriaethau lleol ac i ddarparu tystiolaeth ar gyfer datblygu'r ceisiadau ac ateb amcanion strategol, ar gyfer prosiectau chwarae yn Rownd Dau.

Aml i antur – un nod

Ar draws Cymru mae gan y prosiectau i gyd eu elfennau unigol ac unigryw eu hunain, ac mae ganddynt hefyd lawer yn gyffredin. Mae'r prosiectau i gyd yn anelu i annog cyfranogaeth cymunedol, i gefnogi cynnwys plant anabl a phlant sydd ar gyrion cymdeithas, ac i gynyddu hyder teuluoedd a chymunedau lleol er mwyn i blant allu chwarae allan, waeth os ydynt yn cael eu cefnogi gan oedolion hyfforddedig ai peidio. 'Dyw hyn yn ddim syndod – bydd plant oed ysgol yn dweud writhym dro ar ôl tro bod y manau yr hoffent chwarae y tu allan ac yn agos i'w cartref.

Un o dasgau allweddol prosiectau Rownd Dau fydd dechrau goresgyn rhai o'r rhwystrau i weld plant yn chwarae'r tu allan. Mae'r olygfa o blant yn chwarae'r tu allan yn prysur ddiplannu o'n bywydau bob dydd a chaiff hyn effaith andwyol ar ganfyddiadau a disgwiliadau o blant a phobl ifainc. Bydd gweithwyr chwarae'n helpu aelodau o'r gymuned a rhieni i gydnabod yr angen i blant brofi ystod eang o gyfleoedd a phrofiadau chwarae ac i helpu i gynyddu hyder a thawelwch meddwl. Mae'r prosiect yn anelu i gefnogi plant a phobl ifainc i ddefnyddio manau lleol sy'n bodoli eisoes i ateb eu anghenion chwarae – gan eu helpu i ddod yn fwy gweladwy trwy ddarparu mwy o amser a lle ar gyfer chwarae o fewn cyrraedd rhwydd i riniog eu cartref.

Dyma rai o fanylion unigryw prosiectau chwarae Rownd Dau:

Conwy, Gwynedd ac Ynys Môn

A draws gogledd orllewin Cymru, caiff darpariaeth chwarae mynediad agored dwyieithog wedi ei staffio ei gynnyg am y tro cyntaf mewn cymunedau gwledig ble fo'r Gymraeg yn iaith gyntaf y gymuned.

Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot

Yng Nghastell-nedd Port Talbot, caiff yr ariannu ei ddefnyddio ar gyfer bws chwarae fydd yn cynnig sesiynau chwarae rhad ac am ddim ar draws y sir mewn manau sydd y tu hwnt i gyrraedd gwasanaethau eraill, gan ddechrau yn yr hydref.

Yn Abertawe bydd y prosiect yn cefnogi cymunedau i ddatblygu manau chwarae ym Mharc Treforus, Parc Montana a Chanolfan Gymunedol Penclawdd.

Ceredigion

Yng Ngheredigion bydd yr ymgeisydd arweiniol, RAY Ceredigion, yn cyfoethogi wyth ardal chwarae cymunedol dros bedair blynedd y prosiect.

Sir Y Fflint, Sir Ddinbych a Wrecsam

Yng ngogledd ddwyrain Cymru mae prosiect ymchwil a ddatblygwyd mewn partneriaeth â Phrifysgol Glyndŵr yn allweddol i werthuso buddsoddiad Rownd Dau. Bydd yn 'ymchwilio i effeithlonrwydd creu cyfleoedd chwarae ychwanegol mewn cymunedau...' a dylai ddarparu tystiolaeth fydd yn ddefnyddiol wrth eiriol dros gyfleoedd chwarae ar draws Cymru yn y dyfodol.

Caerdydd a Bro Morgannwg

Yng Nghaerdydd a'r Fro mae'r prosiect yn cynnwys hyfforddi gwirfoddolwyr ifainc i fod yn weithwyr chwarae fel y gallant, gyda chymorth, ddarparu ac eiriol dros blant sy'n chwarae.

CRONFA
LOTERI
FAWR
BIG
LOTTERY
FUND

**Rhondda Cynon Taf a Phen-y-bont ar Ogwr**

Bydd y prosiect yn buddsoddi mewn recriwtio pedwar gweithiwr chwarae dan hyfforddiant, fydd yn derbyn hyfforddiant gwaith chwarae hyd at lefel 3 (sy'n gyfwerth â safon Lefel A) gyda chymorth y fim gwaith chwarae cymwysedig.

Merthyr Tudful, Caerffili a Blaenau Gwent

Bydd Cymdeithas Chwarae'r Tair Sir yn datblygu pecyn cymorth sicrhau ansawdd rhanbarthol yn seiliedig ar yr hyn y mae plant yn ei ystyried sy'n ddarpariaeth o safon, yn ogystal â phecyn cymorth chwarae cynhwysol i gefnogi rhieni i ddeall gwerth chwarae'r tu allan i blant.

Powys

Bydd y prosiect hwn yn datblygu rhaglen hyfforddi gwirfoddolwyr fydd yn cynnig ystod o gyfleoedd hyfforddiant.

Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin

Bydd y prosiect hwn yn recriwtio gweithiwr adnoddau fydd yn datblygu system casglu a chyflenwi sborion ac yn archwilio ffyrdd newydd o gael gafael ar sborion er mwyn cynnig adnoddau i dimau chwarae yn y rhanbarth.

Torfaen, Casnewydd a Sir Fynwy

Bydd y prosiect hwn yn datblygu pecyn cymorth i gefnogi cynladwyedd prosiectau chwarae cymunedol – wedi eu creu mewn partneriaeth â'r grwpiau sy'n eu rhedeg ac wedi eu hysbysu gan ymchwil a gasglwyd gan y timau chwarae. Bydd prosiectau'n dynodi'r hyn sy'n gweithio a'r hyn sydd ddim, yn cofnodi ac yn dadansoddi cyflawniadau ac yn ffurfio gwell dealltwriaeth o'u heffaith a'u heffeithlonrwydd.

Gadael gwaddol

Bydd gan bob prosiect gyfle i adael gwaddol bwysig, unai trwy greu casgliad o atgofion chwarae melys fydd yn helpu plant i ddeall a darparu ar gyfer anghenion chwarae eu plant eu hunain yn y dyfodol, neu trwy hyfforddi gwirfoddolwyr lleol i eiriol ar ran plant sy'n chwarae yn eu cymunedau, neu trwy ad-ennill a chreu man y gellir chwarae ynddo er mwyn i bobl leol ei rannu.

Yr haf yma, a ninnau'n wynebu newyddion am doriadau ariannu a phenderfyniadau anodd ynghylch gwasanaethau plant, 'does bosibl bod amser gwell ar gyfer buddsoddi mewn chwarae plant. Mae hwn yn gyfle unigryw i gefnogi hawl plant i chwarae y tu allan yn eu cymunedau. Mae gan ymwneud â theuluoedd a chymunedau i ddatblygu a chynnal darpariaeth chwarae y potensial i gyfrannu at gydlynid cymunedol a datblygiad cymunedau gwydn a bywiog – rhywbeth sy'n allweddol os ydym i wneud cyfraniad parhaol i les plant.

Prosiectau Rownd Dau Chwarae Plant MAWR yng Nghymru

Mae'r prosiectau i gyd yn anelu i gwrdd â blaenoriaethau rhaglen Chwarae Plant MAWR trwy greu mentrau a chyfleusterau chwarae newydd ym mhob ardal dros y tair i bedair blynedd nesaf, bydd y cyfan yn recriwtio staff newydd dros y misoedd i ddod. Dyma rai o'r manylion:

Prif Ymgeisydd i Rownd Dau	Lleoliad	Staff y Prosiect	Swm a Ddyfarnwyd
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	Conwy, Gwynedd ac Ynys Môn	1 cydlynnydd 9 rhodiwr chwarae	£999,199
Cymdeithas Chwarae'r Tair Sir	Merthyr Tudful, Caerffili a Blaenau Gwent	4 uwch-weithiwr chwarae 8 gweithiwr chwarae	£902,821
Cyngor Sir Y Fflint	Sir Y Fflint, Sir Ddinbych a Wrecsam	1 rheolwr 1 rheolwr adnoddau 9 gweithiwr chwarae	£964,850
Cyngorair Gwirfoddol Torfaen	Torfaen, Casnewydd a Sir Fynwy	1 cydlynnydd 3 gweithiwr datblygu 6 gweithiwr chwarae	£999,092
Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gaerfyrddin	Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin	2 gydlynnydd 1 gweithiwr adnoddau 8 gweithiwr chwarae	£999,328
RAY Ceredigion	Ceredigion	1 swyddog datblygu 1 uwch-weithiwr chwarae 4 gweithiwr chwarae 1 gweinyddwr	£842,321
Play Right / Chwarae lawn	Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot	1 uwch-weithiwr chwarae 6 gweithiwr chwarae	£998,136
Dyfodol Powys Futures	Powys	1 cydlynnydd 3 uwch-weithiwr chwarae 6 gweithiwr chwarae	£812,460
Cymdeithas Chwarae RhCT	Rhondda Cynon Taf a Phen-y-bont ar Ogwr	2 uwch-weithiwr chwarae 6 gweithiwr chwarae 4 gweithiwr chwarae dan hyfforddiant	£979,511
Cyngor Dinas Caerdydd	Caerdydd a Bro Morgannwg	2 uwch-weithiwr chwarae 10 gweithiwr chwarae	£998,117



Gweithwyr Chwarae yn Eisteddfod yr Urdd



Cyflwynodd Eisteddfod yr Urdd safle chwarae mynediad agored ar y Maes am y tro cyntaf eleni, ac fe wnaeth Gill Byrne o RAY Ceredigion helpu i'w greu ...

Pan ofynnodd Mared Dafydd o'r Urdd i Chwarae Cymru sut y gellid cael cyfleoedd chwarae hygyrch, rhad ac am ddim i faes Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2010 (yn Llanerchaeron, ger Aberaeron) fe wnaethant ei chyfeirio atom ni yma yn RAY Ceredigion, prosiect lleol isadeiledd Chwarae Plant y Loteri FAWR.

Bu'r peilot yn un llwyddiannus dros ben. Mae cofnodion gweithwyr chwarae RAY Ceredigion yn dangos i fwy na 200 o blant ymweld â'r safle chwarae ar y diwrnod cyntaf, Dydd Llun Gŵyl y Banc twym a heulog. 'O'r hyn welais i, fe fu'r ardal yn llwyddiant ysguboll!' meddai Mared, 'Rwy'n ffyddiog y bydd hyn yn datblygu o flwyddyn i flwyddyn yn Eisteddfod yr Urdd.'

Gosododd y Gweithwyr Chwarae lyfr sylwadau wrth y fynedfa i gofnodi ymatebion rhieni a phlant – ymwelodd dros 900 o blant a phobl ifanc â'r safle chwarae dros y chwe niwrnod. Mae geiriau'r plant a'r rhieni'n dangos gymaint o dynfa oedd y safle chwarae i'r plant a gymaint y bu i'r plant ei fwynhau.

'Mae fa'ma yn le cŵll! Ddylech chi ddod bob blwyddyn!' Merch 11 oed.

'Mae popeth ydw i ei angen i greu pethau yma, ddim fel yn yr ysgol.'

Bachgen 9 oed (oedd yn creu 'bazooka!').

'Rwy'n credu y cawn ni waith i'w gael o oddi yma heddiw – fe gawn ni gyfle os y gwnaiff o gwmpo i gysgu.' (Rhiant)

'Roeddwn i'n meddwl y byddai mynd i brynu hufen iâ yn ei demtio i ddod o'ma, ond dim lwc.' (Mam).

'Sori fechgyn, aethoch ddim trwyddo i'r llwyfan.' (Tad wrth ei ddau fab).

'Grêt – fe allwn ni aros yma!' (Ateb y meibion).

Roedd llawer o rieni a mamgus a thadus yn gwerthfawrogi'r ffaith bod y safle chwarae yn un rhad ac am ddim ac yn credu ei fod yn ardal 'ymlaciol' hyfryd (disgrifiad y rhieni) ble y gallent eistedd a chael hoe ar y glaswellt tra bo'r plant yn chwarae.

Roedd RAY Ceredigion yn credu bod hwn yn gyfle delfrydol i hyrwyddo'r prosiect Chwarae Plant i'r gymuned Gymraeg ei hiaith trwy Gymru gyfan, a chyhoeddwyd taflen wybodaeth yn cynnwys manylion cyswllt y 10 prosiect a geir yng Nghymru. Cafodd y pum gweithiwr chwarae Cymraeg eu hiaith, fu'n staffio'r ardal chwarae trwy gydol y chwe niwrnod, amser gwyach, roedd y tywydd yn fencigedig, yr awyrgylch yn wych ... ac fe fyddai pob un ohonom yn fwy na pharod i'w wneud i gyd eto!

Gill Byrne: gill.byrne@btconnect.com

Hwb i waith chwarae

Bydd buddsoddiad Rownd Dau rhaglen Chwarae Plant MAWR yn creu a chynnal dros gant o swyddi gwaith chwarae newydd dros y tair i bedair blynedd nesaf. Mae hwn yn hwb sylweddol i'r proffesiwn yng Nghymru, a hyderwn y bydd y cyfle hwn yn denu doniau newydd yn ogystal â gweithwyr chwarae profiadol sy'n meddu eisoes ar y profiad, y sgiliau a'r cymwysterau i weithio'n effeithlon mewn sefyllfaoedd chwarae mynediad agored.

Mae Gwaith Chwarae Cymru'n barod â'n hadnoddau dwyieithog, a'n cefnogaeth, i'w cynnig i'r prosiectau wrth recriwtio a darparu hyfforddiant a chyfleoedd datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer doniau newydd a gweithwyr profiadol. Fel y ganolfan genedlaethol dros addysg a hyfforddiant mewn gwaith chwarae, hoffem longyfarch yr holl ymgeiswyr llwyddiannus ac edrychwn ymlaen at gydweithio yn y dyfodol.

**Jane Hawkshaw,
Rheolwraig y Ganolfan**



Braidd yn araf fu dechrau'r diwrnod i'r ardal chwarae ar y Maes ar y diwrnod cyntaf, a bu'r weithwraig chwarae Amy Jones yn diddanu ei hun trwy greu sgerf 'ra-ra' allan o stribedi o ddefnydd net lliwgar – bargaen wych o storfa sborion. Ychydig wyddai Amy erbyn diwedd y dydd y byddai tua cant o oedolion a phlant o bob oed – yn ogystal ag un gweithiwr chwarae digon amharod – wedi creu eu fersiwn eu hunain o sgerf Amy i'w gwisgo! Roedd y mynydd o ddefnydd net oedd yno ddechrau'r bore, fwy neu lai wedi diflannu erbyn diwedd y dydd.

Ceir rhestr o storfeydd sborion y DU ar-lein ar:

www.childrensscrapstore.co.uk



Ymholi ynghylch yr Ymchwiliad



Cynulliad National
Cenedlaethol Assembly for
Cymru Wales

Yn y rhifyn diwethaf o *Chwarae dros Gymru* fe wnaethom gyfeirio at ymchwiliad Pwyllgor Plant a Phobl Ifainc Cynulliad Cenedlaethol Cymru i fannau diogel i blant a phobl ifainc chwarae allan a chymdeithasu. Fel rhan o'r ymchwiliad bu'r Pwyllgor yn casglu tystiolaeth gan blant a phobl ifainc.

Roedd Helen Mary Jones AC, Cadeirydd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifainc yn fwy na pharod i ateb y cwestiynau am unwaith pan aeth ein gohebydd Lowri Brown (15), o Ysgol Plasmawr Caerdydd, i'w chyfweld ynghylch yr ymchwiliad.

Bydd y Pwyllgor yn cwblhau ei adroddiad a'i argymhellion dros dymor yr haf. Cyflwynir yr adroddiad i Lywodraeth Cynulliad Cymru yn yr hydref.

Wedi ei gyhoeddi, bydd modd lawrlwytho'r adroddiad o:
www.cynulliadcymru.org

Lowri: Pam ydych chi'n gwneud yr ymgynghoriad yma i mewn i lefydd diogel i chwarae?

Helen Mary: Mae llawer o bobl yn ysgrifennu atom o fudiadau gwahanol a gofyn a wneud chi wneud ymchwiliad i mewn i hyn a'r llall, ond penderfynon ni yn ystod haf y llynedd y dylen ni ofyn i blant a phobl ifainc Cymru beth mae nhw'n ei feddwl sy'n bwysig a beth sy'n eu poeni nhw. Mae staff y Cynulliad yn mynd i wahanol sioeau a sioeau amaethyddol yn ystod yr haf a wnaethon ni gynnal pleidlais trwy ofyn



i blant a phobl ifainc beth mae nhw'n meddwl y dylen ni edrych arno nesaf. [Darganfyddon ni bod plant a phobl ifainc yn] pryderu ynghylch llefydd saff i dreulio amser sbar, pryderu ynghylch agwedd rhai oedolion tuag atynt os ydynt yn siarad ar y stryd neu'n chwarae pêl-droed, a phoeni am fod â digon o ryddid.

Fel mae'n digwydd, mae gan y Llywodraeth gynllun cyflawni'r polisi chwarae sydd i fod i hybu cyfleoedd plant i chwarae ac i bobl dy oed di fod yn annibynnol a threulio amser efo ffrindiau. Felly, roedd edrych a yw'r cynllun cyflawni'n gweithio yn le da i ddechrau. Rydym wedi gofyn i lawer o blant a phobl ifainc, cyrff a mudiadau fel Chwarae Cymru, Llywodraeth leol yng Nghymru a'r Heddlu, beth yw'r problemau a pha awgrymiadau y dylen ni eu gwneud i'r Llywodraeth er mwyn gwella pethau.

Lowri: A fydddech chi'n annog rhieni i fod yn hapus i roi mwy o ryddid i'w plant?

Helen Mary: Mae'n dibynnu ar yr amgylchiadau. Mae bywyd yn anodd i blant a phobl ifainc – ac yn fwy cymhleth nag oedd e oesoedd yn ôl pan o'ni yr un oedran â ti. Mae llawer o rieni yn poeni am bethau fel bwlio ar y we, bwlio trwy facebook, pethau fel 'na. Dwi'n credu bod rhan o hyn yn deillio o'r ffaith bo ni [oedolion] ddim yn gyfarwydd â'r cyfrwng yna o gyfathrebu, felly mae'n codi ofn arnon

ni. Gyda phlant llai rydyn ni'n poeni am bethau mwy ymarferol fel croesi'r hewl, ond byddwn i yn cefnogi rhieni i ganiatáu i blant fod yn annibynnol ond mae'n bwysig deall pam eu bod nhw'n bryderus a thrio rhoi'r ffeithiau iddyn nhw, fel eu bod nhw'n gallu dod i ddeall mai'r unig ffordd yn y diwedd i gadw plentyn yn saff yw dysgu'r plentyn yna i gadw ei hun yn saff.

Mae'n gallu bod yn anodd gadael i blant fynd. Pan wnes i ddechrau caniatáu i fy merch chwarae mas pan oedd hi tua saith mlwydd oed, dwi'n cofio sefyll y tu ôl i'r llenni ac edrych mas achos bydde hi wedi bod yn grac os y bydde hi'n gwybod bo fi'n edrych. Ond wrth gwrs, dim ond trwy wneud hynny oedd hi'n dysgu sut i fod yn ofalus ar y stryd.

Lowri: Allech chi ddweud writha i ble oedd eich hoff le i chwarae yn ystod eich plentyndod?

Helen Mary: O'ni'n darllen lot pan o'ni'n fach, felly un o fy hoff lefydd i oedd lan fa'na yn fy nychymyg, ond hefyd oedd ganddo ni ardd eithaf mawr. Roeddwn i a fy chwaer yn treulio lot o amser yno jesd yn chwarae – gwneud dens, chwarae tea parties gyda *teddy bears* a phethau fel 'na. Wnaeth un o fy mrodyr mawr i adeiladu tŷ bach reit i fyny yn y coed, ac oedd e'n dŷ bach perffaith – *stained glass windows* a phopeth – o'ni'n teimlo fel tywysoges o hen chwedl plant. Pan oeddwn i'n hŷn, ar ôl inni symud i Gymru, treuliais lawer o amser jesd yn cerdded mas yn yr awyr agored.



Lowri: Ym mha ffyrdd mae oedolion yn meddwl bod chwarae yn yr awyr agored yn bwysig?

Helen Mary: Mae'r dystiolaeth rydym wedi ei gasglu yn amrywio – mae rhai yn pwysleisio'r angen i ddysgu i fod yn annibynnol ac i ddysgu dy hunan beth sy'n saff a beth sydd ddim, ac mae eraill sy'n pwysleisio'r elfen o gael ymarfer i helpu i gadw'n heini. Dwi'n credu ei bod yn bwysig ein bod yn cydnabod bo na lot o ffyrdd o chwarae, lot o ffyrdd o joio'ch hunan gyda'ch ffrindiau ac ar dy ben dy hun hefyd. Fel mae tystiolaeth yn dod i law, dwi'n dod i'r casgliad mai beth sydd ei angen yw lot o wahanol gyfleoedd i blant a phobl ifanc, achos mae na rai plant a phobl ifanc sydd eisiau bod ar eu pen eu hunain heb ddim oedolion o gwmpas ond mae 'na eraill sy'n

teimlo'n saffach os mae na rywun, falle nid rhywun sydd yn ymyrryd trwy'r amser, ond rhywun sy'n gallu bod yn gefn os oes na unrhyw beth yn mynd o'i le, er enghraifft wardeiniaid yn y parc.

Mae hyn yn mynd i fod yn her, yn enwedig pan fydd arian cyhoeddus yn mynd yn fwy fwy anodd [i'w ddsbarthu] yn y dyddiau sydd i ddod. Mae lot o bobl sydd wedi siarad â'r Pwyllgor wedi dweud nad oes angen gwario lot mwy o arian, ond 'falle meddwl mwy am sut y mae'n cael ei wario. Hefyd, mae angen siarad gyda plant a phobl ifanc cyn adeiladu parc neu skatepark neu cyn penderfynu ble mae canolfan ieuencid yn mynd i fod. Nid yw hyn o angenrheidrwydd yn golygu defnyddio mwy o adnoddau ond defnyddio adnoddau sydd yno [eisoes] yn well.

Lowri: A fydd yr ymgynghoriad yma yn gwneud gwahaniaeth i fi a fy ffrindiau?

Helen Mary: Falle y dylwn i egluro dipyn bach [ynglŷn â] beth yw'r broses. 'Da ni bron â gorffen casglu'r dystiolaeth, yna byddwn ni'n cyflwyno adroddiad y Pwyllgor i'r Llywodraeth. Mae gan y Llywodraeth chwech wythnos i ymateb i bob un o'r argymhellion yn yr adroddiad. Wedyn bydd yn rhaid inni gael strategaeth chwarae newydd a fydd yn seiliedig ar ein tystiolaeth. Bydd yn rhaid i [gyrff a sefydliadau] fel ysgolion ac adrannau parciau awdurdodau lleol ymateb i strategaeth newydd y Llywodraeth. Gobeithio y bydd e'n gwneud gwahaniaeth, ond 'dyw e ddim yn mynd i wneud gwahaniaeth dros nos achos mae'r broses yn un eithaf hir.

Bu Lowri hefyd yn holi Helen Mary Jones AC ar ran Lleisiau Ifanc am Ddewis Sir Benfro – fforwm ar gyfer pobl ifanc anabl rhwng 15 a 25 mlwydd oed, sy'n gweithio gyda Chynulliad Cenedlaethol Cymru'n rheolaidd, i gynrychioli barn plant a phobl ifanc anabl ...

Lowri: Rydym yn sylweddoli bod pryderon ein rhieni ynghylch caniatáu i ni, fel pobl ifanc anabl, i fod yn fwy annibynnol yn rhwystr i fynd allan a chymdeithasu gyda'n ffrindiau. Sut all y bobl sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau helpu ein rhieni i fod yn fwy hyderus ynghylch gadael inni chwarae a chymdeithasu'n annibynnol?

Helen Mary: Mae hwn yn gwestiwn arbennig o bwysig i bob plentyn a pherson ifanc, ond yn enwedig ar gyfer plant a phobl ifanc anabl. Mae pob rhiant yn tueddu i fod yn or-amddiffynnol, ac os yw plentyn yn anabl mae'n debyg y bydd y rhieni wedi mynd trwy lawer o boeni a phryderu; weithiau fe fyddan nhw'n gweld yr anabledd yn gyntaf, ac yna'n gweld y plentyn.

Er mwyn helpu i gynyddu hyder rhieni plant anabl bydd angen i'r bobl sy'n gwneud penderfyniadau sicrhau bod y cyfleusterau ar gael a bod y staff wedi eu hyfforddi'n gywir i sicrhau bod y cyfleusterau hynny'n gweithio i bobl sydd ag amrywiol heriau a namau. Mae angen inni ddarparu manau



sydd â goruchwyliaeth a chefnogaeth sensitif oherwydd rydym am gyrraedd sefyllfa ble y gall pobl ifanc anabl fynd allan gyda'u ffrindiau yn union yr un fath â phawb arall. Ond fe fydd y rhan fwyaf o rieni angen man 'hanner ffordd' cyn y byddan nhw'n barod i wneud hynny. Rwy'n credu bod angen inni sicrhau bod pobl ifanc anabl yn cael eu cynorthwyo i ganfod ffordd o leisio eu barn wrth eu teuluoedd hefyd.

Lowri: O ystyried y rhwystrau yr ydym yn eu hwynebu wrth chwarae a chymdeithasu'n annibynnol, rydym wir yn gwerthfawrogi'r grwpiau wedi eu staffio y byddwn yn eu mynychu. Rydym yn pryderu'n arw y bydd toriadau ariannu'n ein gadael wedi ein hynysu, gydag unman i fynd i gwrdd â'n ffrindiau. Sut fydd y bobl sy'n gwneud penderfyniadau'n sicrhau bod ein grwpiau'n parhau?

Helen Mary: Dwi ddim yn credu y gall unrhyw un ddweud y bydd popeth

yn cario ymlaen fel y mae. Mae ein gwlad mewn dyled aruthrol ac mae hynny'n golygu bod angen gwneud rhai penderfyniadau anodd. Fel y bobl sy'n gwneud penderfyniadau, boed hynny ar lefel leol neu o fewn mudiadau gwirfoddol neu yn y Cynulliad, mae angen inni benderfynu beth sydd wirioneddol yn cyfrif a beth allwn ni ddim gwneud hebddo.

Mae'r bobl sy'n gwneud penderfyniadau angen derbyn negeseuon gan blant a phobl ifanc. Os yw eich cyngor lleol yn dweud, 'Allwn ni ddim fforddio i redeg y grwp yna bellach', ewch i weld eich cynghorwyr lleol. Gofynnwch iddyn nhw beth mae nhw'n dal i wario arian arno, oherwydd rwy'n siŵr y byddai'r clybiau a'r mudiadau hynny y mae'r bobl ifanc yn holi amdanynt yn gallu cael eu hariannu'n dda gyda chyflog yn prif weithredwr am nifer o flynyddoedd, felly mae angen i bobl ifanc wneud yn siŵr bod y bobl sy'n gwneud y penderfyniadau'n clywed eu llais.



Digwyddiadau

Diwrnod Chwarae – Digwyddiadau o amgylch y DU

4 Awst 2010

www.playday.org.uk

Playing Outside – A Children in Europe special conference

16 Medi 2010

Markinch, Fife

www.childreninScotland.org.uk/html/tra_tshow.php?ref=1408

The Beauty of Play: the everydayness of play

10 – 12 Medi 2010

Swydd Stafford

0114 255 2432 neu

e-bost info.ludemos@virgin.net

Places and Spaces – Creating Child Friendly Communities

Cynhadledd Flynyddol

Play Scotland

30 Medi 2010

Gwesty'r Apex Waterloo Hotel, Caeredin

www.playScotland.org/assets/Flyer2.pdf

Making Space 2010: architecture and design for children and young people

7 – 8 Hydref 2010

Caeredin

www.childreninScotland.org.uk/html/Conference.htm

5^{ed} Rhifyn: Child in the City 2010

27 – 29 Hydref 2010

Palazzo dei Congressi, Florence, Yr Eidal

www.childinthecity.com/5th-Edition-Child-in-the-City-2010/page/1836/

A World Fit for Children: Advancing the Global Movement

International Forum for Child

Welfare World Forum 2010

8 – 11 Tachwedd 2010

Efrog Newydd

www.worldforum2010.org/Home.aspx

'Possible Summers: stories and reflections from the playspace'

Awdur: Eddie Nuttall

Gall fod yn anodd iawn i ddiffinio chwarae plant mewn geiriau'n unig, ond mae'r naratif yn y llyfr hwn yn cymryd camau breision tuag at dynnu ynghyd yn union beth sy'n ei wneud mor bwysig ac arbennig. Yn ystod ein bywydau gwaith prysur, weithiau gall cymryd amser i fyfyrto ar ein arferion gwaith lithro i lawr y rhestr o flaenoriaethau ...

Mae *Possible Summers* yn hanes personol, myfyriol o waith chwarae. Mae'n rhannol yn ddyddiadur o daith profiadau Eddie rhwng gaef 2008 a hydref 2009, ac yn rhannol yn fyfyrddod ar waith chwarae a'i berthynas glòs â byd plant sy'n chwarae. Mae'r deunyddiau myfyriol, sy'n cyfannu'r dyddiadur gan greu 'asgwrn cefn' i'r llyfr, yn mabwysiadu arddull bywgraffiadol er mwyn ceisio gwneud synnwyr personol o fodolaeth yr awdur fel gweithiwr chwarae.

Gellir defnyddio'r llyfr yn yr un modd â 'rhan rhydd' fel y gallwn symbylu a chyfannu meddyliau a theimladau sy'n berthnasol i'n harfer personol ein hunain, waeth pa bynnag fath o arfer yw hwnnw.

Ar ôl darllen *Possible Summers*, all rhywun ddim peidio â meddwl y byddai'n amhosibl i'w ddarllen heb lawer iawn o fyfyrto. Mae'r llyfr hwn wedi gwneud cyfraniad sylweddol i fy siwrnai fyfyrto personol. Cefais fy hun yn synfyfyrto ar enydau sydd fel pe baent yn rhewi a ble fo unrhyw beth yn bosibl, ar goll yn yr eiliad, teimlad o 'beth pe bai?'. Wrth ddarllen y testun, rwy'n sylweddoli fy mod yn dewis a dethol syniadau a chysyniadau ac yn eu harchwilio wrth fy mhwysau. Gallaf yn sicr argymhell hamog fel man delfrydol i ystyried posibilidadau!

Bu darllen yr hanesion a'r straeon sy'n gysylltiedig â hwy, yn bleser pur, a bu o gymorth i fy ystyriaethau fy hun o brofiadau chwarae, ac yn bwysicach fyth, o fy angen fy hun i gyfoethogi ac atgyfnerthu fy arfer myfyriol personol fel gweithiwr chwarae. Byddwn yn aml yn sôn bod myfyrio wrth galon ein arfer, neu fel rheolwyr, byddwn yn sôn bod myfyrio wedi ei wreiddio yn arfer timau staff. Fodd bynnag, byddaf weithiau'n cwestiynu os yw hyn yn wir bob amser. Yn ystod ein bywydau gwaith prysur, weithiau gall cymryd amser i fyfyrto lithro i lawr ein rhestr o flaenoriaethau. Rwy'n credu bod hyn, yn y pen draw, yn wrthgynhyrchiol, ac rwyf wedi fy nghael fy hun yn gwerthfawrogi gonestrwydd a diffuantwydd yr awdur.

Mae'r disgrifiadau a'r myfyrdodau wedi eu cyfuno yn y fath fodd fel y cefais fy ysbrydoli i egluro rhywfaint o fy meddyliau personol trwy edrych ar y modd y bydd pobl eraill yn ystyried pethau. Gall chwarae plant fod yn anodd iawn i'w ddiffinio mewn geiriau'n unig, ond mae'r naratif yn y llyfr hwn yn cymryd camau breision tuag at dynnu ynghyd yn union beth sy'n ei wneud mor bwysig ac arbennig.

Yn sgîl y newidiadau diweddar i'r Llywodraeth mae amserau diddorol o'n blaenau, a hoffwn gloi trwy ddyfynnu'r awdur yn ei eiriau ei hun: "*Mae dyled arnom i'r rheini a ddarparodd ar ein cyfer yn ein bywyd cynnar, a'r plant yr ydym yn darparu ar eu cyfer yn awr, i anfon neges glir i'r byd pa mor gwbl allweddol yw hi i gadw ein cymunedau'n fannau chwareus, egniol a llawn rhyfeddod ble y gallwn fodoli a thyfu, os ydym i oroesi'r tymhorau newidiol o'n blaenau.*"

Adolygydd gan Simon Bazley,

Swyddog Gweithredol Datblygu Chwarae Rhanbarthol, NEW Play



Fforwm Gweithwyr Chwarae 2010



Roedd y Fforwm Gweithwyr Chwarae eleni'n gyfle dysgu rheulog, braf yng nghanol Cymru. Unwaith eto, daeth cyfranogwyr ynghyd ar gyfer deuddydd o weithdai awyr agored, gwersylla a rhwydweithio. Eleni NEW Play (North East Wales Play Forum) afaelodd yn yr awennau, gyda chefnogaeth grŵp cynllunio oedd yn cynnwys Cymdeithas Chwarae Rhondda Cynon Taf, Chwarae Cymru, Maes Chwarae Antur Cwm Gwentro, tîm Datblygu Chwarae Wrecsam, Fforwm Chwarae Gogledd Orllewin Cymru a Phrifysgol Glyndŵr.

Thema'r digwyddiad eleni oedd *Chwarae o Safon = Cymunedau o Safon* ac agorodd yr hyfforddwyr gwaith chwarae, Jess Milne ac Ali Wood, y digwyddiad gyda chyfle i gyfranogwyr ystyried rôl y gweithiwr chwarae fel eiriolydd ac asiant lleol dros newid. Rhoddodd ystod o weithdai ddewis o ddysg i'r cyfranogwyr ar ymarfer a damcaniaeth er mwyn adeiladu eu sgiliau wrth ddarparu gwaith chwarae o fewn cymunedau.

Roedd Clwb Rygbi Meifod, ger y Trallwng, yn amgylchedd arbennig ar gyfer dysgu tra bo'r anhygoel Nia yn darparu ar gyfer anghenion maeth y cyfranogwyr! Bu'r afon oedd yn llfio heibio ein maes gwersylla'n ganolbwynt ar gyfer y gweithdai a'r hwyl gyda'r nos, tra ar y lan bellaf adeiladwyd, ac ail-adeiladwyd, gwahanol strwythurau cyn i blant lleol chwarae arnynt.

Unwaith eto, llwyddodd y Fforwm Gweithwyr Chwarae i ymateb i anghenion proffesiynol newidiol gweithwyr chwarae yng Nghymru a byddem yn annog unrhyw un sydd â syniadau ar gyfer gweithdai yn nigwyddiadau'r dyfodol i gysylltu â ni. Mae'r Fforwm Gweithwyr Chwarae'n lle gwych i hwyluso gweithdy a byddem yn croesawu cynigion i redeg gweithdai yn y dyfodol.

Diolch i bawb fu ynghlwm â chynllunio'r digwyddiad ac yn enwedig i bawb ddaeth yno fel cyfranogwyr.

Y diweddaraf am P³

Ers y rhifyn diwethaf o *Chwarae dros Gymru* mae 374 o ddysgwyr wedi derbyn ein hyfforddiant Gwaith Chwarae: Rhoi Egwyddorion ar Waith (P³). O'r rhain, mae 164 o ddysgwyr yn gweithio tuag at gwblhau'r cymhwyster Lefel 2. Trwy gydol misoedd yr haf cynhelir cyrsiau, a chaiff dysgwyr eu asesu, ar draws Cymru – o Gaernarfon i Bontypridd ac o Lyn Ebwy i Gonwy.

Yn ddiweddar, cynhaliodd Gwaith Chwarae Cymru, sy'n gweithio mewn partneriaeth â Phrosiect Chwarae Creadigol Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent (GAVO), sesiwn profi P³ i ddisgyblion Ysgol Gyfun Caerffili. Mae hyn yn rhan o'r llwybrau dysgu 14 i 19; defnyddiwyd y sesiwn profi i hysbysu pobl ifainc am rôl gweithwyr chwarae ac i annog disgyblion i gyflawni cymhwyster Lefel 2 P³.

Ym mis Medi mae Ysgol Gyfun Bedwas yng Nghaerffili yn gobeithio cynnwys Gwobr Lefel 2 P³ yng nghwricwlwm Cyfnod Allweddol 4. Gallai disgyblion, dros ddwy flynedd, astudio ar gyfer ac ennill cymhwyster gwaith chwarae cyflawn Lefel 2 P³.

Adolygiad hyfforddiant gwaith chwarae

Fel yr adroddwyd yn y rhifyn diwethaf o *Chwarae dros Gymru*, mae Melyn Consulting wedi cynnal gwaith ymchwil fel rhan o adolygiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i lefelau a throsglwyddo hyfforddiant gwaith chwarae yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys rôl Gwaith Chwarae Cymru, y ganolfan genedlaethol dros addysg a hyfforddiant gwaith chwarae.

Rydym bellach yn disgwyl cyhoeddi adroddiad yr adolygiad gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Fe gewch y wybodaeth ddiweddaraf ar wefan Gwaith Chwarae Cymru dros yr haf.

www.gwaithchwaraecymru.org.uk



Pecyn ar gyfer rhoi hwab i hyder

SkillsActive

Mae gweithwyr chwarae'n tueddu i fod yn bobl aml-dalentog sy'n meddu ar lu o sgiliau ymarferol a sgiliau pobl, fodd bynnag, i rai, gall diffyg hyder yn eu llythrennedd a'u rhifedd personol fod yn rhwystr i ddatblygiad proffesiynol.

Mae gallu ysgrifennu a mynd i'r afael â ffigyrau'n hyderus yn gaffaeliad mawr i bob gweithiwr; bydd nid yn unig yn gwneud tasgau gwaith yn rhwyddach o lawer, ond mae'n caniatáu i ddysgwyr fynegi eu hunain yn rhugl mewn aseiniadau ysgrifenedig ar gyfer

cymwysterau a'r rheini sy'n awyddus i symud ymlaen ar hyd llwybr gyrfa.

Mae SkillsActive, y cyngor sgiliau sector ar gyfer gwaith chwarae, mewn partneriaeth â Sgiliau Sylfaenol Cymru a Chwarae Cymru, wedi creu pecyn cymorth – **Cefnogi staff gwaith chwarae yng Nghymru i wella'u llythrennedd a'u rhifedd** – a ariannwyd trwy Raglen Grantiau Adduned Cyflogwyr Sgiliau Sylfaenol Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r pecyn cymorth wedi ei anelu at gyflogwyr yn y sector gwaith chwarae hoffai gefnogi eu staff i wella eu sgiliau sylfaenol yn y gweithle ac i gynyddu mewn hyder.

Gellir lawrlwytho **Cefnogi staff gwaith chwarae yng Nghymru i wella'u llythrennedd a'u rhifedd** o adran Adnoddau gwefan Gwaith Chwarae Cymru – www.gwaithchwaraecymru.org.uk

Cefnogi Staff Gwaith Chwarae yng Nghymru i wella'u llythrennedd a'u rhifedd

SkillsActive

Grym Chwarae a Rhianta

Circles Network sy'n dweud mwy ...

Mae'r Prosiect 'Family Empowerment Project' yn wasanaeth gaiff ei redeg gan y Circles Network sy'n cynnig cefnogaeth, pecynnau addysgiadol ac asesiadau ar gyfer rhieni ag anableddau. Byddwn yn gweithio â rheini sy'n cael anawsterau wrth fagu eu plant, gan eu galluogi i adnabod yr anawsterau y maent yn eu wynebu, a'u cynorthwyo i oresgyn y problemau hyn. Byddwn yn gweld bod llawer o rieni angen cefnogaeth wrth ddarparu amgylchedd chwarae-gyfeillgar ar gyfer eu plant a bod agwedd chwarae yn helpu i atgyfnerthu perthnasau o fewn y teulu – gan gefnogi plant i ffynnu.

Byddwn yn gweithio mewn ffyrdd unigryw a chreadigol, gan gefnogi rhieni i ddyfysu ystod o sgiliau magu plant sydd wedi eu teilwra i ateb eu anghenion ac ar ffurf sy'n cefnogi eu harddulliau dysgu. Yn ddiweddar, fe gysylltom â Gwaith Chwarae Cymru i geisio hyfforddiant gwaith chwarae i gefnogi ein staff, ac yn y pen draw y rhieni y byddwn yn gweithio â hwy, i ddeall ymddygiad chwarae plant a sut i hwyluso profiadau chwarae cadarnhaol.

Am fwy o wybodaeth ynghylch ein gwasanaethau, galwch Circles Network ar 02920 487575

Digwyddiadau Ymgynghorol

Quality Training Quality Play (QTQP) yw strategaeth y DU ar gyfer gwaith chwarae, addysg, hyfforddiant a chymwysterau ar gyfer y pum mlynedd nesaf.

Mae Gwaith Chwarae Cymru'n trefnu digwyddiadau ymgynghorol ym mis Medi fydd yn helpu i hysbysu Cynllun Cyflawni Quality Training Quality Play 2011 – 2016 SkillsActive ar gyfer Cymru. Cynhelir un digwyddiad yng Ngogledd Cymru ac un digwyddiad yn Ne Cymru – cadwch olwg ar wefan Gwaith Chwarae Cymru am ddyddiadau a mwy o wybodaeth.

www.gwaithchwaraecymru.org.uk



Chwarae i'r Dyfodol – goroesi a ffynnu Galwad am grynodedbau a chynigion



50^{ed} cynhadledd fyd-eang yr
International Play Association

**4 – 7 Gorffennaf 2011,
Caerdydd, Cymru**

www.ipa2011.org

Cynhelir y gynhadledd gan Chwarae
Cymru ar ran yr International Play
Association – sy'n hyrwyddo hawl y
plant yn chwarae

www.ipaworld.org

Siaradwyr

Brian Sutton-Smith PhD

Cyhoeddiad newydd, *Play as
Emotional Survival*.

Bob Hughes

Awdur *Evolutionary Playwork a
Reflective Analytic Practice*.

Wendy Russell a Stuart Lester

Awduron papur cysyniadol yr IPA,
*Children's Right to Play:
An examination of the importance
of play in the lives of children
worldwide*.

Sudeshna Chatterjee PhD

Ysgolhaig nodedig a dylunydd
trefol sy'n gweithio yn India, un o
olygyddion y cyfnodolyn *Children,
Youth and Environments*.

Dysgwch fwy am siaradwyr a
chyfranwyr y gynhadledd wrth
idynt gael eu cadarnhau ar
www.ipa2011.org

Galwad am grynodedbau a chynigion

Mae 18^{ed} cynhadledd yr International Play
Association yn cynnig pedwar diwrnod i
rannu'r canlynol gyda chyfeillion o bob
cwr o'r byd:

- tystiolaeth o werth chwarae
- tystiolaeth o werth darparu ar gyfer
chwarae
- profiad ac enghreifftiau o arfer da wrth
hyrwyddo a chefnogi chwarae plant

Croesewir cyfraniadau gan ddisgyblaethau
a chefnidiroedd polisi sydd â diddordeb
mewn, neu sy'n effeithio ar, blant a phobl
ifanc yn chwarae - er enghraifft, addysg,
iechyd, darpariaeth chwarae, darpariaeth
ieuenctid, therapi chwarae, dylunio a
chynllunio trefol a thirweidd.

Saesneg yw iaith Cynadledau Byd-eang
yr IPA, ond mae Chwarae Cymru wedi
ymrwymo i gefnogi pobl sydd am wneud
cyflwyniadau trwy gyfrwng y Gymraeg.
Croesewir cyfraniadau gan bobl sydd ddim
yn aelodau o'r IPA. Mae Grŵp Ymgynghorol
Rhaglen IPA 2011 yn eich gwahodd i
gyflwyno crynodebau a chynigion ar
themâu'r gynhadledd ar gyfer:

- Cyflwyniad ar bapur mewn sesiwn
gweithdy (30 munud)
- Cyflwyniad ar bapur i'r gynhadledd
lawn (30 munud)
- Gweithdy (un awr – yn cynnwys cyfle i
gyfranogwyr gymryd rhan)
- Symposiwm (90 munud, grwpiau'n
cyflwyno ar thema benodol gyda
chyfle i gyfranogwyr gymryd rhan)
- Cyflwyniad ar boster neu arddangosfa
anfasnachol, gan gynnwys darpariaeth
chwarae symudol i'w arddangos ym
maes parcio canolfan y gynhadledd
- Cyflwyniad ar ffilm

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r uchod
yw 10 Tachwedd 2010 – caiff crynodebau
a chynigion eu hadolygu gan gyfoedion
ar Grŵp Ymgynghorol y Rhaglen, a dylid
eu cyflwyno trwy ebost gan ddefnyddio'r
ffurflenni sydd ar gael ar wefan y

gynhadledd ar www.ipa2011.org Caiff
crynodebau a chynigion llwyddiannus eu
cadarnhau ym mis Ionawr 2011.

Cofrestru – Fe fydda' i yno

Bydd cofrestru ar gyfer y gynhadledd
(archebion cyfranogwyr) yn agor ar-lein o'r
1^{af} o Fedi 2010. Bydd angen i gyfranogwyr
a chyfranwyr gofrestru a thalu am le
cyfranogwr cynhadledd trwy wefan y
gynhadledd ar www.ipa2011.org

Gweler www.ipa2011.org/registration ar
gyfer amcan-brisiau'r gynhadledd.

Os ydych yn sefydliad masnachol
neu di-elw sy'n dymuno achub ar
y cyfle cyffrous hwn i hurio gofod
ardangos y tu mewn neu'r tu allan
i ganolfan y gynhadledd, cysylltwch
â Kathy Muse yn Chwarae Cymru ar
kathy@playwales.org.uk neu
+44 (0)29 2048 6050.

**Mae'r Galwad am Grynodedbau a
Chynigion Saesneg a geir yng nghanol
y cylchgrawn hwn wedi ei ddisbarthu
yn rhyngwladol – gellir lawrlwytho
fersiwn Cymraeg ar y wefan: [www.
ipa2011.org/sut_i_gyflwyno](http://www.ipa2011.org/sut_i_gyflwyno) neu os yr
hoffech gopïau papur ebstiwlch eich
manyliion at Angharad:
angharad@chwaraecymru.org.uk**

Themâu

Chwarae – Unigol a Chymdeithasol

Chwarae – Amgylchedd a Gofod dan
do, y tu allan, rhithwir, trefol
neu wledig

Chwarae – Cymdeithas a Diwylliant

Am olwg fanylach ar themâu'r
gynhadledd gweler:
www.ipa2011.org/themes

Ymwelwch â www.ipa2011.org
am fwy o wybodaeth a chanllawiau ar
gyflwyno crynodebau a chynigion ac i
lawrlwytho'r ffurflen gyflwyno
i'w chwblhau.

